Ysgol Gynradd Henblas,Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net

5/9/2024
Annwyl Rieni/Gwarcheidwad,

Croeso i'r flwyddyn academaidd newydd! Rydym yn gyffrous at y flwyddyn newydd a'r holl brofiadau y byddwn yn mwynhau gyda'n gilydd. Ar ôl trafodaeth gyda'r dosbarth ar ddiwedd tymor yr haf, y tymor hwn rydym yn canolbwyntio ar y thema 'Lliwiau.'

Byddwn yn cychwyn gwaith ar ein thema drwy sbardun llyfr 'Y Lleidr Lliwiau' gan Nia Morgan.
Yn ystod y thema bydd cyfle i'r disgyblion:

- gynnal arbrofion lliwiau
- ddysgu am liwiau craidd ac eilaidd
- greu darnau celf gan efelychu gwaith artistiaid enwog a lleol
- fynd ar ymweliadau addysgol
- fynd ar helfa lliwiau hydrefol
- ddysgu am effaith y tymhorau ar liwiau yn y byd natur
- ddysgu am ddathliadau lliwgar o fewn crefyddau'r byd

Gofynnwn i chi drafod y thema gydag eich plentyn a llenwi'r holiadur isod gyda'ch syniadau a sylwadau.

https://forms.gle/ppUv9kUTsupoh2GB8

Bydd diwrnod addysg gorfforol ar Ddydd Mawrth eleni. Gofynnwn i blant gyrraedd yr ysgol yn eu gwisg ymarfer corff os gwelwch yn dda.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn dod a'u llyfrau darllen i'r ysgol bob dydd gan sicrhau eich bod wedi llenwi'r cofnod darllen ar ôl darllen gyda'ch plentyn adref. Mae eich sylwadau yn werthfawr iawn i ni wrth symud eich plentyn yn eu blaenau.

Gofynnwn yn garedig i chi labelu popeth sydd yn eiddo i'ch plentyn - gwisg ysgol, esgidiau, bagiau ayyb.

Yn gywir,

Manon Roberts
Athrawes y dosbarth gwyrdd (blwyddyn 1 a 2)

Dear Parents/Guardians,
Welcome to the new academic year! We are excited for the new year and all the experiences we will enjoy together. After a discussion with the class at the end of the summer term, we have chosen a new theme for the term which is 'Colours.'

We will start work on our theme by reading 'The Colour Thief' by Nia Morgan. During the theme pupils will have the opportunity to:

- conduct colour experiments
- learn about primary and secondary colours
- create art pieces imitating the work of famous and local artists
- learn on educational visits
- go on an autumnal colour hunt
- learn about the impact of seasons on colours in nature

- learn about colourful celebrations within religions around the world

We ask that you discuss the theme with your child and complete the questionnaire below with your ideas and comments

https://forms.gle/ppUv9kUTsupoh2GB8

Physical Education will be on Tuesday this year. We ask children to arrive at school in their PE clothes please.

Please ensure that your child brings their reading books to school every day and fill out the reading record after reading with your child at home. Your comments are valuable to us in moving your child forward.

Please label everything your child owns - school uniform, shoes, bags etc.

Regards,

Manon Roberts
Green class teacher (years 1 and 2)